

Y galw am amblecsau DAB graddfa fach: y tair rownd drwyddedu gyntaf

Yn natganiad Ofcom ar [Drwyddedu DAB graddfa fach](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, bu i ni ddweud (paragraff 7.24) y byddem yn cynnal "adolygiad mewnol byr" ar ôl rowndiau un a dau "pan y byddem o bosib yn gwneud diwygiadau i'r broses a/neu'r amserlen drwyddedu". Gan ein bod bellach wedi cwblhau'r rownd gyntaf a'r ail rownd o drwyddedu amblecsau, rydym wedi adolygu lefel y galw yn ogystal â'n proses. Gan ein bod wedi derbyn ceisiadau am y drydedd rownd o hysbysebion trwyddedu hefyd, rydym wedi adlewyrchu'r wybodaeth honno yn yr adolygiad hwn hefyd.

Galw yn y rowndiau cynnar

Hysbysebwyd Rownd Un y trwyddedau amblecs radio DAB graddfa fach gan Ofcom ar 1 Medi 2020, ac roedd yn cynnwys 25 o ardaloedd o bob cwr o'r DU. Roedd yn cynnwys cymysgedd bwriadol o wahanol fathau o ardal trwydded (mawr a bach, trefol a gwledig) i helpu i roi arwydd cynnar i ni o lefelau tebygol o alw. Felly, amrywiodd yr ardaloedd a hysbysebwyd o'r rhai bach iawn (Ynysoedd Sili) i farchnadoedd metropolitan mawr megis Leeds, Caeredin a Bryste.

Hysbysebwyd Rownd Dau y trwyddedau ar 1 Mehefin 2021, ac roedd yn cynnwys 22 o ardaloedd yng ngogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru, sef y cyntaf o'n 'hardaloedd macro' a gynlluniwyd. Rhanbarthau yw'r rhain lle y mae, o bosib, sbectrwm annigonol i ddarparu ar gyfer yr holl ardaloedd trwyddedu gwasanaethau amblecs radio graddfa fach a nodwyd.

Hysbysebwyd Rownd Tri y trwyddedau ar 25 Ionawr 2022 ac, fel Rownd Un, roedd yn cynnwys 25 o ardaloedd o bob cwr o'r DU.

O'r 72 o ardaloedd y mae Ofcom wedi'u hysbysebu hyd yma, mae naw yn unig (Caer ac Ellesmere Port; Clitheroe; Y Rhyl, Rhuthun a'r Wyddgrug; Cilgwri; Lincoln; Shaftesbury; Aberdeen (De); Hull (Dwyrain); a Dundee) nad ydynt wedi denu unrhyw ymgeiswyr. O ran Hull ac Aberdeen mae'n werth nodi, yn y ddau achos, i ni dderbyn ceisiadau i ddarparu ar gyfer rhannau eraill o'r dinasoedd hynny.

Rydym yn cydnabod y bydd lefelau'r galw yn amrywio rhwng rowndiau oherwydd natur yr ardaloedd sy'n cael eu hysbysebu. Un o'r ffactorau a nodwyd gennym yn natganiad Ebrill 2020 y byddem yn ei ystyried wrth benderfynu ar ein trefn hysbysebu trwyddedau oedd y lefel debygol o alw yn seiliedig ar ddatganiadau o ddiddordeb. Yn Rownd Un, dewiswyd ardaloedd lle rhagwelwyd y byddai lefelau cymharol uchel o alw, ac yn wir, derbyniodd pob ardal o leiaf un cais. Yn rowndiau dau a thri, er i alw cryf a cheisiadau lluosog barhau mewn rhai ardaloedd, roedd lleiafrif o ardaloedd na chawsant unrhyw geisiadau. Bydd Ofcom yn parhau i gadw nodweddion cyffredin ardaloedd nad ydynt yn derbyn ceisiadau'n destun adolygiad, gyda golwg ar fwyafu diddordeb ym mhob rownd, ac yn enwedig wrth i ni gyrraedd ardaloedd lle mae mynegiadau o ddiddordeb wedi nodi lefelau is o alw.

O'r ardaloedd trwydded yr ydym wedi'u hysbysebu hyd yma y derbyniwyd ceisiadau ar eu cyfer, derbyniodd 31 o ardaloedd gais unigol (yn aml o ganlyniad i orsafoedd lleol weithio ar y cyd i wneud cais unigol). Ymhlith y categori hwn roedd nifer o ardaloedd trwydded lle'r oedd amblecs graddfa fach brawf eisoes yn darlledu. Derbyniodd y 32 ardal arall ddau neu fwy o geisiadau.

Fel y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol, yn gyffredinol denodd hysbysebion am drwyddedau amlblecs sy'n darparu ar gyfer dinasoedd â phoblogaethau sylweddol (ac amrywiol o ran cefndir ethnig) y nifer fwyaf o geisiadau, gyda phum cais wedi'u derbyn ar gyfer Leeds, pedwar ar gyfer Bradford, a thri mewn ardaloedd fel Sheffield, Coventry a De Birmingham. Yr eithriadau i'r duedd hon oedd ardaloedd metropolitan fel Glasgow a Bryste lle y bu amlblecs prawf yn darlledu eisoes. Er bod Ofcom yn gwbl agored i geisiadau gan y rhai nad oes ganddynt drwydded eisoes mewn ardaloedd prawf, ac yn wir mae'r drwydded ym Manceinion wedi cael ei dyfarnu i ymgeisydd o'r fath, deallir bod y rhain o bosib yn llai tebygol o ddenu ceisiadau lluosog.

Yn gyffredinol, ein barn yw y bu lefel iach o alw am y trwyddedau amlblecs graddfa fach yr ydym wedi'u hysbysebu hyd yma, a bod Ofcom wedi llwyddo i ddarparu adnoddau digonol i gefnogi'n effeithiol y gwaith o asesu ceisiadau, dyfarnu trwyddedau a gwaith dilynol tuag at lansio amlblecsau.

O ran y broses a'r amserlen drwyddedu, rydym yn parhau i wneud addasiadau i'r arweiniad cyhoeddedig a phrosesau mewnol yng ngoleuni ein profiad. Yn natganiad Mis Ebrill 2020, bu i ni ddweud y byddem yn anelu at hysbysebu sypiau bob chwe mis. Yn ymarferol, bu bylchau o wyth mis rhwng hysbysebion. Ar y cyfan, fodd bynnag, credwn fod parhau i dargedu dwy rownd y flwyddyn gyda thua 25 o ardaloedd ym mhob un yn realistig. Y rheswm am hyn yw bod rowndiau cynnar yn fwy tebygol o fod yn faich o ran amser wrth i Ofcom ac ymgeiswyr ymgyfarwyddo â'r broses. At hynny, mae'r pandemig Covid-19 wedi cael rhywfaint o effaith ar gyflymder y cynnydd.

Ansawdd y ceisiadau

Yn y pen draw, diben hysbysebu trwyddedau amlblecs graddfa fach yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr drwy, ymhlith pethau eraill, sicrhau'r defnydd optimaidd o sbectrwm a sicrhau argaeledd amrywiaeth o wasanaethau radio sy'n apelio at amrywiaeth o chwaeth a diddordebau yn unol â dyletswyddau Ofcom. Mae hyn yn cynnwys, yn achos DAB graddfa fach, sicrhau llwybr at ddigidol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol a gwasanaethau radio lleol annibynnol llai, yn ogystal ag ystod o wasanaethau masnachol ar gyfer gwrandawyr radio digidol. Felly, yn ogystal â nifer y ceisiadau, mae'n berthnasol ystyried a yw ceisiadau wedi bod o safon uchel ac a oes gan y rhai y dyfernir trwyddedau iddynt obaith rhesymol o fynd ar yr awyr a darparu gwasanaeth da drwy gludo gwasanaethau radio, gan gynnwys C-DSP, y gall gwrandawyr eu mwynhau.

Yn gyffredinol, bu ansawdd y ceisiadau yr ydym wedi'u hasesu hyd yma (yn rowndiau un a dau - mae ceisiadau Rownd Tri wedi'u derbyn ond heb gael eu hasesu eto) yn dda, yn enwedig o ystyried yr heriau ychwanegol y mae'r pandemig Covid wedi'u peri i ymgeiswyr. Mae'n ddymunol i ni dderbyn ceisiadau gan ystod amrywiol o ymgeiswyr a mathau o gwmnïau. Mae'r rhain wedi amrywio o ddarlledwyr masnachol neu weithredwr amlblecs sefydledig megis Nation Broadcasting a MuxCo; gwasanaethau radio cymunedol unigol megis Bolton FM; consortia o wasanaethau radio lleol neu gymunedol analog, yn aml yn gweithio gyda darparwr trawsyrru; a cheisiadau gan sefydliadau sy'n hollol newydd i'r sector darlledu radio megis Arts At The Mill, a wnaeth gais llwyddiannus am drwydded Wigan. Mae'n ddymunol hefyd i weld yr ystod o ddarparwyr trawsyrru gwahanol sydd wedi camu i fyny i gefnogi cyflwyniad y dechnoleg graddfa fach newydd hon.

Mewn perthynas â'r meini prawf dyfarnu statudol, credwn fod cynlluniau technegol hyd yma wedi bod o safon resymol (er bod angen rhai mesurau lliniaru i ymdrin â materion ymyriad, gorgyffwrdd

gormodol ag amblecsau lleol, a darlledu y tu hwnt i'r ardal a hysbysebwyd). Mewn rhai achosion, mae'r camau lliniaru wedi mynnu i'r rhai y dyfarnwyd trwydded iddynt ofyn am newid safleoedd, gan ychwanegu at gymhlethdodau wrth lansio ac at lwyth gwaith staff Ofcom. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau technegol wedi rhoi darpariaeth dda mewn ardaloedd a hysbysebwyd, gan olygu i ni ragweld y bydd gwasanaethau ar gael i nifer uchel o aelwydydd yn yr ardaloedd hynny. Lle y bu'r ddarpariaeth a ragfynegwyr yn waeth, mae hyn wedi tueddu i ddeillio o heriau technegol penodol iawn mewn ardal (e.e. mewn perthynas â thopograffeg) neu o ymgeisydd sy'n cynnig cynllun technegol cymharol syml (e.e. bydd trawsyrrydd unigol yn tueddu i roi darpariaeth waeth ond efallai y bydd manteision i hyn hefyd o ran sefydlu'r gwasanaeth a chadw costau i lawr). Yn gyffredinol, mae cynlluniau ariannol hefyd wedi rhoi hyder y bydd gwasanaethau'n gallu mynd yn sefydledig. Mae llawer o geisiadau wedi cynnwys darpar ddarparwyr C-DSP fel cyfranogwyr, sy'n cael ei drin o dan y meini prawf dyfarnu statudol fel nodwedd ddymunol i'w gweld mewn cais, er nad yw'n gwbl angenrheidiol. Mae eraill wedi dangos cefnogaeth gan y fath ddarparwyr, gan roi hyder y byddant yn darparu llwybr i ddigidol ac yn cynnig ystod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymunedau. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau hefyd wedi dangos cefnogaeth gan C-DSP a DSP sy'n nodi y byddant, ar adeg y lansiad, yn darparu gwasanaeth da (a chynaliadwy).

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae pedwar gwasanaeth amblecs graddfa fach (ar gyfer Tynemouth a South Shields, Caersallog, Gogledd Birmingham¹ a Chaergrawnt) wedi lansio, ac mae hyn yn dangos y bu rhai ymgeiswyr ar gyfer ardaloedd Rownd Un yn rhy optimistaidd o ran eu hamserlenni lansio arfaethedig. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r oedi i lansio wedi'i achosi, neu'n sicr heb ei helpu, gan nifer o ffactorau gysylltiedig â'r pandemig Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys problemau fel cael mynediad i safleoedd trawsyrru, prinderau ar yr ochr gyflenwi sy'n effeithio ar argaeledd trawsyryddion, ac oedi wrth dderbyn caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd trawsyrru. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ardaloedd Rownd Un nad ydynt wedi lansio eto, rydym yn ymwybodol o gynnydd da gan ddyfarneion wrth oresgyn yr heriau hyn a pharatoi i lansio. Mae'r ddeddfwriaeth DAB graddfa fach yn mynnu, os ydynt am gael trwydded gan Ofcom, fod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus lansio o fewn 18 mis i'r dyddiad y cyhoeddwyd y penderfyniad dyfarnu trwydded gennym.

Rydym yn fodlon bod yr amblecsau sydd wedi lansio hyd yma yn cyflwyno amrywiaeth eang o wasanaethau rhaglenni i wrandawyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau radio lleol newydd sbon megis Salisbury Radio a Radio Shields; darparu nifer o wasanaethau radio cymunedol analog ar lwyfan radio digidol am y tro cyntaf; gorsafoedd sy'n targedu cymunedau lleiafrifoedd ethnig penodol megis BFBS Ghurka, Asian Star Radio a Radio Sangam; a gorsafoedd cerddoriaeth/ffordd o fyw arbenigol megis Passion Radio, Angel Vintage, GlitterBeam, Memory Lane Radio, Radio Caroline, Cosoro Radio a Dance Revolution.

Casgliadau

Byddwn yn parhau i gadw'r broses, yr amserlen a blaenoriaethu trwyddedu amblecsau graddfa fach yn destun adolygiad mewnol. Byddem yn nodi, yn benodol, fod y penderfyniad i flaenoriaethu ardaloedd yn seiliedig (ymhlith pethau eraill) ar lefel y galw a ragwelir, gan olygu y byddem yn disgwyl hysbysebu rhai ardaloedd maes o law lle mae lefel y galw'n is. Rydym hefyd yn cydnabod y

¹ Dylid nodi bod amblecs Gogledd Birmingham wedi lansio gyda thrawsyrrydd unigol, ac y bydd yn ofynnol i drawsryddion pellach fod yn weithredol erbyn y terfyn amser ar gyfer lansio. Mae'n golygu nad yw'r amblecs hwn yn darlledu i'r ardal lawn y mae wedi cael ei drwyddedu gan Ofcom i'w gwasanaethu eto.

gallai lefel y galw barhau i esblygu yn y diwydiant radio yn seiliedig ar faterion gan gynnwys llwyddiant amblecsau graddfa fach wrth iddynt lansio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau sylweddol yn seiliedig ar ein hadolygiad o lefel y galw hyd yma.

Nodwn yn olaf fod y lleoliadau y bwriadwn eu hysbysebu yn Rownd Pedwar, a'r 'ardal facro' Llundain a de-ddwyrain Lloegr (a gaiff ei hysbysebu mor fuan ag y gallwn²) yn cynnwys ardaloedd lle mae'r galw yn gymharol uchel, yn enwedig yn achos yr ardal facro. Rydym o'r farn, felly, bod posibilrwydd da y bydd y rhain yn rowndiau trwyddedu poblogaidd, a fydd yn denu ceisiadau o ansawdd uchel a'r potensial i Ofcom drwyddedu amblecsau sy'n cludo amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys C-DSP.

12 Mai 2022

² Mae oedi wrth hysbysebu'r ardal facro hon o ganlyniad i'r angen am gwblhau gwaith cydlynu amleddau rhyngwladol gyda gweinyddiaethau cyfagos â'r DU yng Ngorllewin Ewrop.